# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd A.M.Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G.Davies, Eric Jones, J.P.Williams, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Cyllid Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, R. Llewelyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Ms Lynn Hine, Mr. James Quance (PwC), Mr Patrick Green (RSM Tenon) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Medi a 8 Tachwedd 2011.

**3 ARCHWILIO ALLANOL**

3.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad yn amlinellu'r cynnydd hyd yn hyn gyda'r gwaith wnaed gan yr Archwilwyr Allanol.

Rhoddodd Mr James Quance ddiweddariad i'r aelodau ar statws cyfredol y gwaith mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

- Datganiad Cyfrifon 2010/11 - roedd barn ddiamod wedi'i darparu ar Ddatganiad Cyfrifon 2010/11 ar 16 Tachwedd 2011 gan yr Archwilydd a Benodwyd. Bydd di-briffio llawn yn digwydd rhwng tîm PwC a'r Swyddogion Cyllid yn fuan yn y Flwyddyn Newydd er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwelliant yng nghyfrifon 2011/12 a'r prosesau archwilio. Bydd y costau ychwanegol a gafwyd oherwydd y cyfnodau amser estynedig oedd ynglŷn ag archwiliad 2010/11 a materion perthynol yn cael eu trafod gyda'r rheolwyr.
- Cyfrifon Llywodraeth Gyfan - oherwydd bod yr Awdurdod wedi bod yn hwyr yn cyflwyno'r datganiad i'r Archwilwyr Allanol ac i Lywodraeth Cymru, ni fu modd cwrdd â'r dyddiad cau, sef 29 Medi. Nid oedd gwaith Archwilio Allanol yn y maes hwn wedi'i gwblhau ac mae'n ymgymryd â gweithdrefnau ychwanegol oherwydd na wnaeth yr Awdurdod gytuno ar falansau dyledwyr/credydwyr dros £1m gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yn y drefn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru oherwydd y cyflwyno hwyr.
- Grantiau - mae Archwilwyr Allanol yn parhau i wneud gwaith archwilio grantiau trwy gydol y flwyddyn gyda'r mwyafrif o'r gwaith ardystio grantiau'n cael ei wneud yn yr Hydref ac yn fuan yn y Gaeaf er mwyn cyfarfod ag amseroedd cau cyrff cyllido. Mae Archwilwyr Allanol hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Chydlynydd Grantiau Penodedig yr Awdurdod a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) er mwyn sicrhau bod y momentwm o welliant ym mherfformiad yr Awdurdod ynglŷn ag amseriad ac argaeledd dogfennau cynhaliol ar gyfer hawlio grant o 2009/10 yn parhau. Roedd yr

adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cynnydd hyd yn hyn ynglŷn â gwaith ardystio grantiau mewn perthynas â hawliadau grant yn 2007/8 a 2009/10. O safbwynt hawliad Cymorth 2009/10, mae'r Awdurdod bellach wedi cwblhau'r gwaith ychwanegol y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru ac fe gwblhawyd ailarchwiliad ym mis Hydref 2011. Roedd canlyniadau'r ailarchwiliad hwn i'w gweld yn yr adroddiad ac fe anfonwyd y rhain hefyd i Lywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 7 Tachwedd 2011. Roedd gwaith archwilio nifer o hawliadau 2010/11 wedi'i gwblhau yn unol â'r amseroedd cau a bennwyd gan y cyrff cyllido ac roedd y rhai oedd wedi'u hardystio yn cael eu rhestru yn yr adroddiad. Roedd gwaith yn parhau mewn perthynas â nifer o hawliadau eraill ac mae cynnydd da yn cael ei wneud tuag at gyrraedd amseroedd cau archwilio'r cyrff cyllidol.

- Ardystio Cyfrifon 2009/10 a 2010/11 - ni roddwyd tystysgrif cau i gyfrifon 2009/10 oherwydd nad oedd gwaith oedd yn cael ei wneud gan Archwilwyr Allanol mewn perthynas ag ymchwiliad maith i honiadau ynglŷn â gweinyddu grant cartrefi gwag a grant gwella trefi wedi ei gwblhau. Roedd adroddiad drafft wedi'i ryddhau wedi hynny i'r Awdurdod a bydd tystysgrif cau yn cael ei rhoi pan fydd yr adroddiad wedi'i gwblhau. Mae'r mater hwn yn cael effaith hefyd ar dystysgrif 2011 ac ymhellach i hyn yng nghyswllt cyfrifon 2010/11, mae'r Archwilydd a Benodwyd yn parhau i ddal y dystysgrif yn agored hyd nes y ceir penderfyniad a fydd adroddiad er budd y cyhoedd yn cael ei ryddhau mewn perthynas ag anallu'r Awdurdod i gyfarfod â'r amseroedd cau gyda'r cyfrifon statudol.

Holodd Aelod a oedd unrhyw ymateb wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru i lythyr PwC dyddiedig 7 Tachwedd 2011 oedd yn adrodd ar y canfyddiadau yn dilyn ail-archwilio hawliad Cymorth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod gohebiaeth wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru oedd yn cadarnhau rhyddhau llythyr o gynnig grant am 2011/12. Roedd cyllid Cymorth ar gyfer 2011/12, oedd wedi cael ei ddal yn ôl hyd nes y byddid wedi cwblhau'r gwaith ychwanegol y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru, bellach wedi cael ei ryddhau.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

3.2 Rhoddodd y Swyddog Adran 151 a'r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro adroddiad llafar i'r Pwyllgor ynglŷn â Chynllun Rheoleiddio/Strategol yr Archwilwyr Allanol. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau bod yr eitem wedi'i chynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn ar y sail nad oedd y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn diweddariad ynglŷn â'r Cynllun Strategol gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd hefyd yn ymgorffori'r Cynllun Archwilio Allanol. Mae llawer o waith yn cael ei wneud o fewn y Cyngor gyda llawer ohono yn bwydo'r Asesiad Gwella ac mae yna, ar hyn o bryd, lawer o wahanol ddarnau o waith yn cael eu gwneud. Yng ngoleuni hyn roedd yn credu y byddai'n briodol adrodd yn ôl ar gwantwm y gwaith o Swyddfa Archwilio Cymru a PwC i'r Pwyllgor Archwilio fel y gellir tracio'r cynnydd mewn perthynas â'r flwyddyn archwilio gyfan a chyfanswm cwantwm y gwaith sy'n parhau o fewn yr Awdurdod. Nid yw hyn o anghenraid yn golygu y bydd y Pwyllgor Archwilio'n ystyried pob darn o waith sy'n dod oddi wrth reoleiddwyr allanol yn arbennig o ystyried bod y Cynllun yn cynnwys gwaith rheoleiddwyr eraill fel Estyn ac AGGCC ond o safbwynt y rhai sy'n llywodraethu, mae'n briodol bod y Cyngor yn derbyn diweddariad fel bod ganddo ddarlun cliriach o'r holl waith sy'n mynd ymlaen a'i fod yn siŵr bod darnau unigol o waith yn mynd yn eu blaenau i'r fforwm perthnasol. Argymhellir felly bod diweddariad ar Gynllun Strategol/Rheoleiddiol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gynnwys fel item sefydlog ar raglen y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd y Swyddog Adran 151 a'r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro bod gan y Pwyllgor Archwilio rôl yn sicrhau bod y Cynllun Rheoleiddio yn diogelu rhag y risgiau mwyaf amlwg o fewn y Cyngor a bod y Pwyllgor yn ystyried lefel y ffioedd archwilio geir yn y ddogfen ac yn monitro'r darnau o waith yn erbyn y ffioedd a dalwyd. Rôl y Pwyllgor ar sail barhaol fyddai gweld beth sy'n cael ei gynhyrchu a sicrhau bod y gwaith yn derbyn sylw trwy sgriwtini ac/neu lwybrau gweithredol. Cadarnhaodd Ms Lynn Hine bod rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ar y Cynllun Rheoleiddio yn arfer dda. Bydd y Rhaglen Reoleiddio gyfredol yn dod i ben fis Ionawr pan gaiff yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol ei ryddhau a bydd rhaglen newydd yn cychwyn bryd hynny. Efallai y byddai, felly, yn briodol ac yn amserol o ystyried bod yna gyfarfod wedi'i drefnu o'r Pwyllgor ym mis Chwefror i adrodd i'r cyfarfod hwnnw ar y deilliant terfynol o'r Rhaglen sy'n dod i derfyn yn ogystal â chyflwyno'r Cynllun am y flwyddyn nesaf.

Tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw at y ffaith bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cynnal adolygiad o waith sicrwydd trydydd parti yng nghyswllt nifer yr adolygiadau a wnaed; sut y cânt eu trin gan bob adran a pha drefniadau sy'n eu lle ar gyfer sicrhau bod yna ymateb adrannol iddynt ar ffurf cynllun gweithredu ac ati. Roedd yr adolygiad yn argymell bod cofrestr ganolog o'r holl adroddiadau rheoleiddio'n cael ei

sefydlu yn cynnwys adroddiadau sydd ar ddod.  Pe bai rhestr o’r holl waith rheoleiddio’n cael ei sefydlu yna fe allai hynny gael ei gysylltu i’r canol corfforaethol a’i briodi gyda’r disgwyliadau corfforaethol o’r hyn sydd i fod i gael ei adrodd yn ôl.  Mae gwaith, felly, yn cael ei wneud i sicrhau bod yna weithredu ar lefel gorfforaethol yng nghyswllt adroddiadau rheoleiddiol fel bod yna ymateb iddynt.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a bod diweddariad ar Gynllun Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Archwilio.**

3.3.   Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Lythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr a Benodwyd i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd Ms Lynn Hine wrth yr Aelodau mai dogfen oedd yn sefyll ar ei phen ei hun oedd y Llythyr Archwilio, ond fe fydd hefyd yn cael ei chyflwyno i’r Cyngor ac i’r cyhoedd fel rhan o’r Adroddiad Gwella Blynyddol sydd i’w ryddhau i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012.  Roedd y Llythyr fel y mae’n sefyll yn crynhoi’r prif negeseuon o’r archwiliad ariannol o gyfrifon 2010/11 gyda’r materion hynny wedi’u dwyn i sylw’r Pwyllgor Archwilio cyn hyn.  Roedd paragraff 6 y Llythyr yn cyfeirio at yr adolygiad o drefniadau’r Cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac y mae’n amlygu rhai o’r materion a’r heriau sy’n codi o’r gwaith hwn yr adroddir arnynt yn llawnach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.  Roedd y Llythyr yn nodi hefyd bod disgwyl i’r ffi archwilio ariannol am 2010/11 fod yn uwch na’r hyn osodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd y cymerwyd mwy o amser na’r disgwyl i archwilio Datganiad Cyfrifon 2010/11.

Gwnaed cais gan yr Aelodau bod PwC yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Archwilio ar y ffi archwilio ariannol derfynol am 2010/11 unwaith y bydd honno wedi cael ei phenderfynu a’i chytuno.  Gofynnwyd hefyd am ddiweddariad ar y sefyllfa gyda’r Adroddiad Budd y Cyhoedd yr oedd yr Archwilydd a Benodwyd yn ystyried ei ryddhau oherwydd methiant yr Awdurdod i lynu wrth amseroedd cau'r cyfrifon statudol.  Cadarnhaodd Ms Lynn Hine ei bod wedi cyfarfod â Mr Anthony Barratt, yr Archwilydd a Benodwyd a’i bod wedi cyfleu iddo’r teimladau a fynegwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod blaenorol ar 8 Tachwedd 2011 sef bod y Pwyllgor o’r farn y gallai’r anfanteision o ran costau cynhyrchu’r adroddiad Er Budd y Cyhoedd fod yn fwy na’r manteision.  Mae’r Archwilydd a Benodwyd yn dal i ystyried y mater ac mae’n ymwybodol o brosesau mewnol eraill sy’n mynd ymlaen ac y mae’n eu cadw mewn cof.

Roedd yr Aelodau yn dymuno gwybod beth oedd y cyfnodau amser ynglŷn â hyn ac roeddent yn awyddus i ategu eu hamheuon ynglŷn â rhinweddau rhyddhau Adroddiad Er Budd y Cyhoedd am y rhesymau a roddwyd eisoes.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 a’r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro bod yr archwiliad annibynnol i’r ffaith bod y Datganiad Cyfrifon yn hwyr yn gorfod cael sylw dyladwy cyn y gall yr Archwilydd a Benodwyd ystyried a ddylai ryddhau adroddiad er budd y cyhoedd a rhaid iddo ddisgwyl am ganfyddiadau’r archwiliad hwnnw.  Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod fel entiti rôl i’w chwarae ac os gellir dangos bod y Cyngor Sir y cymryd sylw o’r materion a godwyd ac yn rhoi prosesau, gweithdrefnau a staff yn eu lle fel sy’n briodol yna mae’n debyg y bydd yr Archwilydd a Benodwyd yn debygol o fod eisiau ystyried hyn.  Mynegodd Aelod ei ddymuniad i gael tystiolaeth weladwy bod gwelliannau’n digwydd trwy weld cynllun gweithredu a dywedodd y byddai’n gwerthfawrogi pe bai adroddiad ar y broses wella yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio.  Dywedodd y Swyddog Adran 151 a’r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro bod y broses wella’n ymgorffori materion sy’n ehangach na dyletswyddau’r Pwyllgor Archwilio fel adroddiad Chwarter 2 y Comisiynwyr a gyflwynwyd yn ddiweddar i’r Cyngor; y broses o osod y gyllideb fydd yn rhoi prawf ar gadernid gweithdrefnau’r Awdurdod cyfan a’r adolygiad arfaethedig o’r strwythur rheoli uwch.  Ar yr haen islaw hynny, byddir yn edrych ar y prosesau o fewn y Gwasanaeth Cyllid yn y Flwyddyn Newydd a bydd hyn yn cynnwys prawf gan gymheiriaid o awdurdod lleol arall yn profi’r prosesau a gweithdy gyda’r archwilwyr i adolygu’r gwersi a ddysgwyd o broses paratoi a llunio cyfrifon 2010/11.  Bwriedir hefyd ceisio cryfhau a gwneud yn gynaliadwy rai o’r swyddi o fewn y gwasanaeth a thrwy hynny leihau’r ddibyniaeth ar staff dros dro.  Efallai y byddai’n ymarferol dod ag amlinelliad cychwynnol o’r cynigion a fwriedir i gyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2012.  Rhaid rhoddi ystyriaeth hefyd i gostau er enghraifft, costau'r system lejer newydd ar gyfer paratoi cyfrifon 2012/13 a’r costau sy’n gysylltiedig â hyfforddi a datblygu staff i fynd a’r prosesau hyn yn eu blaenau.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i PwC ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio yng nghyswllt y ffi archwilio ariannol derfynol am 2010/11.**

**4 ARCHWILIO MEWNOL**

4.1 Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 25 Tachwedd 2011.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y materion a ganlyn –

- Statws yr adolygiadau archwilio sydd ar droed ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi'u cwblhau i adroddiad terfynol yn y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol fel oedd yn Nhabl 1 o dan baragraff 2.2.
- Ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf, roedd naw adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol am 2011-12 wedi'u rhyddhau a chyfanswm o 32 o adroddiadau terfynol wedi'u cyhoeddi yn 2011/12, gyda thri ohonynt yn cael barn Sicrwydd Coch.
- Roedd Tabl 3.1 yr adroddiad yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau cytunedig yng Nghynllun Busnes y Gwasanaeth am 2011/12. Roedd y ganran o ddyddiau y codir amdanynt wedi gwella yn erbyn y targed gydag adnoddau ychwanegol o ddyddiau archwilio contract yn cael eu rhoi i mewn fis Hydref a Thachwedd a hynny'n helpu i ddod â'r ganran o fewn 12% i'r targed. Er bod y ganran o'r Cynllun Archwilio a gwblhawyd, pro rata, unwaith yn rhagor yn is na'r targed, fe welwyd gwelliant ers yr adroddiad diwethaf.
- O safbwynt gwaith ymchwiliol arbennig, mae'r ymchwiliad ynglŷn â grant adnewyddu fel yr adroddwyd ar hynny yn yr adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol blaenorol, yn parhau. Fe gyfeiriwyd y mater at yr Heddlu i weithredu arno fel sy'n briodol yn eu barn nhw ac y mae'r Archwilwyr Allanol yn agos i lunio adroddiad terfynol ar y mater.
- Yng nghyfarfod mis Medi 2011 o'r Pwyllgor Archwilio, fe adroddwyd bod dau adolygiad ynglŷn â theithio a chostau cynhaliaeth wedi'u cynnal gydag adroddiadau terfynol yn cael eu rhyddhau. Ers y cyfarfod hwnnw, fe wnaed yr Aelodau'n ymwybodol trwy e-bost gan y Rheolwr Archwilio o gais Rhyddid Gwybodaeth gan y Daily Post ynglŷn â'r adroddiadau hyn. Roedd ymateb ffurfiol y Cyngor i'r cais ynghyd â chopi wedi'i olygu o un o'r adroddiadau wedi'i e-bostio i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth. Mae cais Rhyddid Gwybodaeth ynglŷn â'r ail adroddiad yn parhau'n fyw ac efallai y bydd yr adroddiad yn cael ei ryddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn fersiwn wedi'i golygu o'r adroddiad ymlaen llaw i'w ryddhau.
- Gan gyfeirio at dracio argymhellion, dim ond argymhellion a wnaed ers 1 Ebrill 2010 sy'n cael eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion. Mae'r perfformiad o ran gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 66 o argymhellion Uchel a Chanolig yn cael eu cofnodi fel rhai a weithredwyd a 68% o'r holl argymhellion wnaed. Roedd gwaith dadansoddi pellach i'w weld yn Atodiadau A a B.
- Canlyniad dau adolygiad o fewn y cyfnod fu rhoi barn Sicrwydd Coch ac yn Atodiad C a D yr adroddiad roedd crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiadau hyn mewn perthynas â'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer rheoli asbestos mewn eiddo annomestig (Rheoli Asbestos - Eiddo) ac mewn perthynas â'r trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli asbestos o fewn eiddo domestig (Rheoli Asbestos - Tai). Oherwydd bod y ddau adolygiad archwilio wedi arwain at farn Sicrwydd Coch, bydd raid cael adolygiad Dilyn-i-Fyny ac adroddir ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Pwyllgor Archwilio.

Yn y drafodaeth ddilynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd, codwyd y pwyntiau isod gan yr Aelodau –

- Roedd pryderon ynghylch y materion a oedd wedi codi yn sgil adroddiadau ar adolygiadau archwilio o hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth, yn ogystal â'r sylw a roddwyd i'r mater yn y wasg yn dilyn cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r adroddiadau. O ran yr adroddiad cyntaf (roedd copi wedi ei olygu wedi ei anfon at yr Aelodau), roedd yr Aelodau o'r farn y dylid tynhau'r mesurau rheoli a'r gweithdrefnau gweinyddol yn y maes er mwyn sicrhau na thelir unrhyw daliadau sy'n uwch na'r uchafswm a ganiateir. Esboniodd y Rheolydd Archwilio, er bod hawliadau a gyflwynir trwy'r adain gyflogau yn cael eu gostwng yn awtomatig i'r uchafswm sy'n daladwy, mae nwyddau hefyd yn cael eu prynu trwy archebion a cherdyn pwrcasu

corfforaethol ac mae'n wir dweud mai yn y ddau faes yma mae'r gwendidau yn y trefniadau rheoli wedi eu nodi. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) wrth yr Aelodau fod y mater wedi cael sylw gan yr Uchel Grŵp Arweinyddiaeth, o ganlyniad i ddigwyddiad penodol ac adolygiad a gynhaliwyd wedyn, a bod y grŵp hwnnw wedi argymell y dylid tynhau'r gweithdrefnau. Cylchredwyd nodiadau canllaw mewn ymdrech i sicrhau na fydd y fath beth yn digwydd eto. Yn dilyn trafodaeth ar y mater, argymhellodd yr Aelodau yn ffurfiol y dylid gweithredu'r trefniadau angenrheidiol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ordaliadau yn cael eu gwneud yn y dyfodol a bod hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth yn cael eu capio yn seiliedig ar yr uchafsymiau a gymeradwywyd. Mewn perthynas â'r ail adroddiad adolygu y cadarnhaodd y Swyddogion ei fod yn ymwneud â hawlio costau teithio a chynhaliaeth dramor, argymhellodd yr Aelodau, wrth drafod y mater penodol hwn ac yn benodol yr hyn yr ystyrir yn "rhesymol" yn y cyd-destun hwn, bod polisi ffurfiol yn cael ei lunio i roi arweiniad mewn perthynas â hawlio costau teithio a chynhaliaeth dramor. Mewn perthynas â'r ail adolygiad archwilio, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) fod ymateb wedi ei wneud a chamau gweithredu wedi eu cynllunio a'u cymryd a bod y rheini wedi arwain at baratoi dogfen ganllaw mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth dramor. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi paratoi canllawiau ar gyfer teithio rhyngwladol a gellir eu defnyddio fel pwynt cyfeirio o ran yr hyn sy'n rhesymol mewn perthynas â hawlio costau teithio a chynhaliaeth dramor. Gellir mabwysiadu a theilwra polisi gyda golwg ar y canllawiau gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Gwnaeth yr Aelodau argymhelliad ffurfiol y dylid sefydlu polisi o'r fath.
- Gwnaed sylw ynghylch yr amser a gymerwyd a'r adolygiadau a gynhaliwyd gan yr amryfal bartïon mewn perthynas â'r archwiliad hirbarhaus o honiadau a wnaed mewn perthynas â grant adnewyddu.
- Mewn perthynas â rheoli asbestos o fewn eiddo domestig ac annomestig y Cyngor, roedd Aelodau yn teimlo y byddai'n briodol cyfeirio'r mater i sylw'r pwyllgor sgriwtini perthnasol.

Dygodd y Swyddog Adran 151 a'r Gyfarwyddwraig Cyllid Dros Dro sylw'r Aelodau at y trefniadau cyfredol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Atgoffodd y Pwyllgor ei fod, yn y cyfarfod ym mis Medi, wedi cefnogi estyniad tri mis ar gontract archwilio mewnol RSM Tenon hyd nes y derbynnir rhagor o wybodaeth ynghylch trefniadau cydweithio. Dywedodd y Swyddog wrth y Pwyllgor ei bod yn bwriadu estyn y contract am dri mis arall hyd at ddiwedd Mawrth 2012 ar y sail bod y rhaglen gydweithredol yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i ddatblygu'n llawn. Byddai'r cyfnod hwn yn rhoi cyfle i ystyried materion fel staffio. Er bod yr Aelodau yn fodlon cefnogi'r cynnig fel mesur tymor byr ac fel rhywbeth ymarferol i wneud o gofio'r ansicrwydd cyfredol, roeddynt yn awyddus i bwysleisio eu dyheadau, sef gweld strategaeth yn cael ei llunio i gryfhau'r capasiti mewnol ac i ailsefydlu Uned Archwilio Mewnol yn y Cyngor yn y misoedd y tu draw i Fawrth 2012 a hynny er mwyn gostwng dibyniaeth ar asiantaeth allanol am y gwasanaeth hwn. Awgrymwyd y dylid ystyried gwneud contract gyda'r darparwr archwilio mewnol annibynnol i sicrhau gwasanaeth mentora i staff yn yr adain.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad cynnydd ar waith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2011 i 25 Tachwedd 2011 a nodi ei gynnwys.**
- **Mewn perthynas â hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth, argymell -**

  - **Bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu i sicrhau na fydd unrhyw ordaliadau yn cael eu gwneud yn y dyfodol a bod hawliadau yn cael eu capio ar lefel yr uchafsymiau a gymeradwywyd.**
  - **Bod polisi a chanllawiau ffurfiol mewn perthynas â hawlio costau teithio a chynhaliaeth dramor yn cael eu llunio a'u gweithredu.**

- **Cyfeirio casgliadau'r adolygiadau archwilio o'r trefniadau ar gyfer rheoli asbestos o fewn eiddo domestig ac annomestig y Cyngor i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol.**
- **Cefnogi rhoi estyniad tri mis ychwanegol ar gontract RSM Tenon ar gyfer darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol tan ddiwedd Mawrth 2012.**

**5 RHEOLAETH RISG STRATEGOL**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â chynhyrchu Cofrestr Risg a chamau cysylltiedig i'r dyfodol.

Cyflwynwyd yn Atodiad A Gofrestr Risg Gorfforaethol fel y cafodd ei chyflwyno i’r cyfarfod o’r Bwrdd Gwella ar 14 Tachwedd ond wedi ei chywiro oherwydd bod un o’r risgiau wedi eu gadael allan yn anfwriadol.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sylw at y gwaith sy’n cael ei wneud ynghylch rheoli risg a dywedodd y gwnaed cynnydd da o ran gweithredu’r fframwaith rheoli risg corfforaethol a pharatoi’r gofrestr risg ddrafft a pharheir i weithio arni. Esboniodd y broses ar gyfer diweddaru ac adrodd ar y gofrestr risg a chadarnhaodd y byddai’r gofrestr yn cael ei chyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio fel rhan o’i raglen waith ffurfiol.

Trafododd yr Aelodau'r Gofrestr Risg Ddrafft a gwnaed sylwadau ynghylch rhai o’r materion a amlygwyd yn yr adroddiad i’r Bwrdd Gwella, yn ogystal ag agweddau o ran cyflwyniad y Gofrestr a sut y gellid ei gwella i bwrpas eglurder, er enghraifft trwy ddefnyddio siartiau bar lliw i adlewyrchu’r lefel o risg. Awgrymwyd y gellir darparu copi lliw o’r gofrestr i’r Aelodau yn electronig ac/neu fod lefelau risg yn cael eu dynodi yn y siart trwy fyrfoddau, er enghraifft - “C” ar gyfer Coch a “G” ar gyfer Gwyrdd. Holodd yr Aelodau a oedd polisi cau ac agor ar gyfer rheoli’r broses lle mae risgiau yn cael eu cynnwys ar y gofrestr/tynnu oddi ar y gofrestr ac ynghylch a oes gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw fewnbwn i’r broses hon. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bod polisi i’r pwrpas hwnnw ac mai’r bwriad yw y bydd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn gyfrifol am y Gofrestr Risg ac am reoli’r broses lle mae risgiau unigol yn cael eu rhoi ar y gofrestr neu eu tynnu oddi arni yn seiliedig ar gyngor gan grŵp o swyddogion technegol ail a thrydedd reng. Byddai adroddiad ar y broses yn cael ei gyflwyno wedyn i’r Pwyllgor Archwilio i bwrpas herio. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a’r Gyfarwyddwraig Cyllid mai rôl y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod cynlluniau wedi eu sefydlu i liniaru’r risgiau cymaint â phosib ac mai yn y swyddogaeth honno y mae’r elfen o herio.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol Ddrafft.**

## 6 GWEITHREDU SYSTEM GYFRIFO NEWYDD AR GYFER ASEDAU SEFYDLOG

Cyflwynwyd er sylw’r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) mewn perthynas â’r cynnydd a wnaed o ran gweithredu System newydd i Gyfrifo Asedau Sefydlog a’r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cwblhau’r broses. Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd iddynt gael enghraifft o’r gwaith sy’n gysylltiedig â’r system newydd pan fydd wedi ei gweithredu’n llawn neu a fyddent yn cael cyfle i weld y system ar waith. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y gallai un ai sicrhau bod Aelodau yn cael allbrint o ddarn o waith o’r system newydd neu, fel arall, gellir gwneud trefniadau i aelodau weld y system newydd yn gweithio fel rhan o hyfforddiant/sesiwn gweithdy. Derbyniodd yr Aelodau'r ail awgrym.

**Penderfynwyd nodi’r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gweithredu system gyfrifon newydd ar gyfer asedau sefydlog.**

## 7 AELODAU LLEYG

Mewn perthynas â phenodi Aelodau Lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, dywedodd y Rheolydd Archwilio wrth y Pwyllgor fod hysbyseb wedi ei gosod ar 18 Tachwedd, ac er bod nifer o becynnau gwybodaeth wedi eu hanfon, dim ond un ymatebydd/ymgeisydd a gafwyd. Yn wyneb yr ymateb cyfyngedig felly, argymhellir ail-hysbysebu ar gyfer Aelodau Lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio yn y Flwyddyn Newydd gyda golwg ar ddod â rhestr o ymgeiswyr i’r Pwyllgor ym mis Chwefror.

**Penderfynwyd cymeradwyo ail-hysbysebu yn y Flwyddyn Newydd ar gyfer Aelodau Lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**